CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

*Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd am 7pm ar 7 Ebrill 2021 yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd)(Cymru 2020.*

---

Presennol: Cadeirydd: Cyng Steve Kings, Cyngr Hywel Davies, Iwan Davies, Amanda Edwards, Garethe Eltawab, Nicky Redmond, Ken Symmons, Claire Proven

CS Clive Davies

Clerc

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
None.

**2. Datgan Diddordeb ar Faterion sy'n codi o'r Agenda**
Datgelodd y Cyng K Symmons ddiddordeb mewn materion yn ymwneud â dyfynbrisiau yn ymwneud â gwaith yn y cae chwarae.

**3. Cadarnhau Trefn yr Agenda** a nodi unrhyw eitemau a allai gael eu penderfynu mewn sesiwn gyfrinachol.
Derbyniwyd yr Agenda fel yr oedd wedi'i chyflwyno.
.

**4. Cadarnhau Cofnodion 01-03-21**
Cynigiodd y Cyng I Davies y dylid derbyn y cofnodion fel cofnod cywir, eiliwyd gan y Cyng H Davies. Cytunwyd.

**5. Ceisiadau Cynllunio**
Ni ddygwyd dim byd ymlaen.
Gellir gweld dogfennau cynllunio yn: https://www.ceredigion.gov.uk/resident/planning-building-control-and-sustainable-drainage-body-sab/planning-building-control/

**6. Adroddiad y Cynghorydd Sirol**
Dywedodd y CS Clive Davies ei fod wedi bod yng nghyfarfod grŵp Gwytnwch Llechryd, ac y byddai'r cyfarfod nesaf ym mis Mai. Roedd wedi cysylltu â'r AS a'r AoS am fater y llifogydd. Dywedodd fod gan dref Aberteifi nawr, ar ôl disgwyl am 12 mlynedd, ddyraniad arian ar gyfer amddiffyn rhag llifogydd gan CNC. Roedd gwaith trwsio draeniau a chwlferti yn parhau yn yr ardal. Soniodd am y ddamwain yn ddiweddar yng Nghoes y Llan ac roedd wedi siarad â thrigolion. Roedd yn holi am amseru gwaith ar y B4570 ar ôl llithriad tir ar y ffordd. Dywedodd fod CSC wedi cyhoeddi rhybudd gorfodi am y ffensio yng Nghoedmor. Roedd LDP2 wedi ei roi o'r neilltu nes byddai'r cyfyngiadau COVID yn cael eu llacio. Soniodd am yr ymarfer ymgynghori yn ddiweddar ar Deithio Llesol ac y gallai cymunedau cyfagos elwa. Roedd band eang ffibr yn yr ardal yn cael ei hyrwyddo. Gofynnodd a oedd y Cyngor yn dymuno helpu trefnu codi sbwriel yn y pentrefi. Dywedodd y byddai cyfnod ei swydd fel Maer Aberteifi yn dod i ben ar 4 Mai..

**7. Cyllid a Gweinyddu**
**7.1 Taliadau Misol**
*7.1.1 I gymeradwyo'r cyfrifon sy'n daladwy*

*Llofnod y Cadeirydd:* *Dyddiedig: 05-05-21*

| | | |
|---|---|---|
| S Davies | Cyflog gan gynnwys HMRC 394.05 a MS 25, pecyn a galwadau 4.98 | 345.23 |
| Prif gyflenwadau a Gwas. Peirianneg | Clipiau i'w llofnodi | 24.00 |
| BSE Swalec | Trydan bloc toiledau | 105.36 |
| Cyngor  Sir Ceredigion | Trethi – bloc toiledau | 497.55 |
| Danfo | Glanhau'r bloc toiledau a chodi sbwriel | 273.00 |
| Un Llais Cymru | Ffi aelodaeth | 211.00 |

Cynigiwyd gan y Cyng A Edwards, eiliwyd gan y Cyng N Redmond, cytunwyd.

*7.1.1.2 Cymhwysiad y Banc*
I ddilyn.

*7.1.2 Achosion Covid yn y gymuned*
Dywedwyd bod y brechiadau'n mynd yn dda yn y Sir gyda nifer fach iawn yn peidio â'u cael. Ers agor y ffin â Lloegr, roedd cynnydd mawr yn y traffig wedi'i.

*7.1.3 Bancio ar-lein – y diweddaraf*
Roedd y taliadau ar-lein cyntaf wedi'u hawdurdodi'n briodol.

*7.1.4 Archwiliad mewnol*
Cytunwyd i benodi Mrs J Jamison yn archwilydd mewnol.
Gweithredu: Cysylltu â Mrs Jamison GAN: Y Clerc

*Asesiad risg ariannol*
Cytunwyd i fabwysiadu'r asesiad risg fel y cafodd ei gyflwyno.

*7.1.5 Yswiriant*
Nodwyd bod brocer eisoes yn delio ag yswiriant y Cyngor. Cytunwyd i sicrhau pa lefel o ddiogelwch a allai fod ar gael ar gyfer yr eglwys a waliau'r fynwent ac i holi am ddyfynbrisiau ychwanegol os byddai angen hynny..
Roedd gwerthu eglwysi'n ddiweddar yn codi cwestiwn a allai'r murddun gael ei werthu i'w ddatblygu. Dywedodd y Clerc fod y Cyngor wedi cael prydles ar yr eiddo ym 1998 i atal hynny rhag digwydd.
GWEITHREDU: Eitem ar yr agenda erbyn mis Mai: GAN y Clerc

7.1.6 Cytunwyd y gallai cyfrif Zoom y Cyngor gael ei ddefnyddio ar gyfer cyfarfodydd Grŵp Gwytnwch Llechryd. Byddai'r rhif log a'r cyfrinair ar gyfer y cyfrif yn cael eu rhoi i Gynghorydd a oedd hefyd yn aelod o'r Grŵp.
GWEITHREDU: Holi am hyn GAN: Y Clerc

*7.1.7 Goleuadau'r Nadolig*
Nodwyd y byddai angen trwsio/adnewyddu'r cyfarpar trydan yn yr hen eglwys. Awgrymwyd gan fod y trydan i'r goeden gelyn yn gallu cael ei lifoleuo y gallai fod ar yr adeiladau'n unig. Gofynnwyd a allai goleuadau solar fod yn bosibl. Byddai angen cael dyfynbrisiau am y gwaith.
GWEITHREDU: Eitem agenda GAN: Y Clerc

*7.1.8 Cyfarfodydd y dyfodol*
Cytunwyd i gynnal y cyfarfod ar 5 Mai drwy Zoom. Byddai lleoliadau cyfarfodydd yn y dyfodol yn cael eu hadolygu yng ngoleuni rheoliadau COVID yn y dyfodol a'r lleoedd a fyddai ar gael.
GWEITHREDU: Eitem agenda GAN: Y Clerc

**8. Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
*8.1 Croes-y-Llan*
Cytunwyd y gallai rhagor o arwyddion, fel rhybuddion am gerddwyr a beiciau ar y groesffordd, achosi dryswch.
Byddid yn gofyn i CSC a allai arwyddion ARAF/SLOW gael eu peintio ar y ffordd i dynnu sylw gyrwyr at y groesffordd, gan olygu arafu.

Cytunwyd ymhellach i ofyn am i arwyddion enwau pentrefi gael eu gosod wrth nesáu at bentrefi ar yr A484 o Aberteifi.
GWEITHREDU: Cysylltu â CSC GAN: Y Clerc

*8.2 Llwybrau troed*
*8.2.1 Y diweddaraf am y cynnydd gyda'r map cerdded*
Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi trefnu cyfarfod, gan ddibynnu ar ddeddfwriaeth COVID, gyda chynrychiolydd y Cerddwyr. Gallai arian fod ar gael.
*8.2.2 Y diweddaraf am y llwybr i Aberteifi*
Roedd yr ymgynghori Teithio Llesol nawr wedi cau a disgwylir y canlyniadau. Nodwyd nad oedd map yr ymgynghoriad wedi bod yn hawdd ei nodi..
*8.2.3 Cofrestru llwybrau ar y Map Diffiniol*
Cytunwyd y byddai'r broses ar gyfer cofrestru llwybr yn cael ei chyhoeddi, a gwahoddiadau'n cael eu hanfon i gyflwyno'r dulliau defnyddio angenrheidiol.
GWEITHREDU: Holi am hyn GAN: Y Clerc

*8.3 Pont Llechryd*
Roedd sbwriel yn dal ar ôl wedi'r llifogydd. Roedd CNC a CSC yn ymwybodol o'r mater ond byddent yn aros i lefelau'r dŵr fynd i lawr i lefelau derbyniol i allu gweithio'n ddiogel.

*8.5 Plannu blychau blodau ac ymyl y ffyrdd*
Cytunwyd bod y costau'n gysylltiedig â chynnal a chadw blychau blodau yn sylweddol ac ni fyddai blychau pellach yn cael eu hystyried. Ystyriwyd plannu bylbiau ar hyd ymyl ffyrdd.

**9. Amwynderau**
**9.1 Bloc Toiledau**
Nid oedd dim wedi'i gario ymlaen.

***9.2 Man / Cae Chwarae - pob penderfyniad yn amodol ar ei gymeradwyo gan*** **Gymdeithas Cae Chwarae Llechryd**

9.2.1 *Ffin*
Roedd y llythyr Gofal Cwsmeriaid oddi wrth y cyfreithwyr wedi ei anfon o gwmpas. Cytunodd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i lofnodi'r cytundeb ar ran y Cyngor.
GWEITHREDU: Cysylltu â'r cyfreithwyr GAN: Y Clerc

*9.2.2 Man chwarae*
*9.2.1 Gwaith adfer heb ei wneud o'r archwiliad gan ROSPA.*
Dim ers 04.01.21

*9.2.2 Ailosod y man concrid/trwsio'r llwybr*
Gadawodd y Cyng K Symmons y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio ar yr eitem hon.
Cytunwyd i dderbyn dyfynbris oddi wrth Mr D Symmonds i ailosod y man concrid a thrwsio'r llwybr. Cytunwyd i holi am yr amserlen a cheisio trefnu gwneud y gwaith gyda chyn lleied â phosibl o effaith ar yr ardal.
GWEITHREDU: Cysylltu â Mr D Symmons GAN: Y Cyng I Davies

*9.3 Parc ceir – Neuadd y Cwrwgl*
Gweler 9.2.1 uchod.

*9.4 Eglwys y Groes Sanctaidd, Llechryd*
Roedd y Clerc a'r Cadeirydd wedi cwrdd â chymhwysydd ynglŷn â niwed gan y llifogydd. Nid oedd yr yswirwyr wedi cysylltu â'r Cyngor hyd yn hyn am y tir yn suddo.
Ar gais y Clerc cytunwyd i ysgrifennu ffurfiol at yswirwyr y Cyngor yn dweud nad oedd y llifogydd a'r tir yn suddo yng nghartref y Clerc a bod ei chyfeiriad yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gohebu'n unig.
GWEITHREDU: Cysylltu â'r yswirwyr GAN: Y Clerc

*Ffenestr*
Yn ystod yr ymweliad safle uchod nodwyd bod y ffenestr yn nhalcen yr adeilad yn sigledig. Roedd camau wedi'u cymryd ar unwaith i gysylltu â chwmni i dynnu'r ffenestr allan yn ddiogel. Gofynnodd y Cyng K Symmons a ellid storio'r ffenestr, os byddai'n bosibl, gyda golwg ar ei defnydd eto.
Cafodd cytuno ar y gost ei ddirprwyo i'r Clerc drwy ymgynghori â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.
GWEITHREDU: H H Davies

*9.5 Adeilad y Mileniwm*
Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn dal i weithio ar asesiad risg.

*9.6 Mainc goffa neu le i'r trigolion*
Cytunwyd bod angen ystyriaeth bellach.
GWEITHREDU: Eitem agenda GAN: Y Clerc

*9.7 Cais am lain garddio – dim ond 2 gais oedd wedi dod.*
Nodwyd.

**10. Digwyddiadau**
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

**11. Adroddiadau cyfarfodydd**
Derbyn unrhyw adroddiad
*11.1 Cyng I Davies –Llywodraethwyr yr Ysgol*
Dywedodd y Cyng N Redmond fod 66 o ddisgyblion yn yr ysgol ym mis Ionawr 2021, a fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar yr arian ar gyfer yr ysgol. Roedd y staff a'r rhieni'n hapus â'r systemau rheoli COVID a oedd ar waith. Roedd ffenestri newydd wedi eu gosod yn yr adeilad.

*11.2 Cyng H Davies - Cynrychiolydd Neuadd y Cwrwgl*
Nodwyd y byddai'r Neuadd yn agor ar 17 Mai. Roedd y cynnal a'r cadw'n mynd yn ei flaen.

*11.3 Cyfarfod PACT – ar* 17 Mehefin 2021 am 6.30pm

*11.4 Grŵp Gwytnwch (i gynnwys y diweddaraf am y llifogydd)*

**12. Gohebiaeth (i gynnwys dogfennau ymgynghori heb eu cynnwys dan unrhyw bennawd arall)**
*Gohebiaeth i'w nodi*
Cysylltu â'ch cymuned leol - Canllaw Cyfathrebu i Gynghorwyr Cymuned a Thref Cymru a'u Clercod

2021 Datganiad Ionawr 2021 – Gohirio Eisteddfod Ceredigion.

**13. Materion Personol - Cyfnewid Gwybodaeth gan Gynghorwyr**
Cytunwyd i gysylltu â CSC am y ffens wrth ymyl Coedmor. Nodwyd bod CSC eisoes wedi cyflwyno rhybudd i'r tirfeddiannwr.
GWEITHREDU: Cysylltu â CSC GAN: Y Clerc

Dywedwyd bod gwaith wedi'i wneud yn Greenacres nad oedd yn ymddangos bod caniatâd cynllunio wedi'i roi ar ei gyfer.
GWEITHREDU: Cysylltu â'r adran gorfodi cynllunio GAN: Y Clerc

Gofynnwyd a oedd caniatâd wedi'i roi ar gyfer mannau glampio yn Rose Hill. Roedd y Clerc yn cofio cais yn dod a byddai'n anfon manylion o gwmpas.
GWEITHREDU: Archwilio'r cais cynllunio a'i anfon o gwmpas GAN: Y Clerc

Nodwyd plannu coed ar dir ger Coedmor.

Gofynnwyd a alla'r Cyngor fabwysiadu caban ffôn coch. Cytunwyd yn gyffredinol y gallai caban yn wir gael ei fabwysiadu pan fyddai'n cael ei gyniga ond y byddai'n parhau yn yr un lleoliad.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn holi i weld a allai'r hysbysfwrdd yn y bloc toiledau gael ei drwsio.

**14. Dyddiad y cyfarfod nesaf - 05-05-2021**

*Llofnod y Cadeirydd:* *Dyddiedig: 05-05-21*